# Llanfair Caereinion

## Cynllun Creu Lleoedd

Drafft Ymgynghori

Funded by UK Government

Powys

CYNGOR TREF LLANFAIR CAEREINION

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government




PARATOWYD GAN OWEN DAVIES CONSULTING

CHWEFROR 2025

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cefndir A Diben | 2 |
| Gwiriad Iechyd | 5 |
| Heriau A Chyfleoedd Allweddol | 9 |
| Amcanion | 10 |
| Prosiectau Allweddol | 11 |
| Adborth A'r Camau Nesaf | 27 |




CYNHYRCHWYD GAN OWEN DAVIES CONSULTING AC ELEMENT URBANISM I GYNGOR SIR POWYS.
CAFODD Y GWAITH O GYNHYRCHU CYNLLUN CREU LLEOEDD LLANFAIR CAEREINION EI ARIANNU GAN LYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG TRWY GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU.



# CEFNDIR A DIBEN

## Cyflwyniad



Tref farchnad hanesyddol fach yw Llanfair Caereinion sydd wedi ei chodi ar lannau hyfryd Afon Banwy yng ngogledd Powys. Mae'r dref, sy'n adnabyddus am yr ardal hardd o'i chwmpas a'i threftadaeth gyfoethog, wedi bod yn ganolfan allweddol i gymunedau gwledig yn Sir Drefaldwyn ers amser maith. Yn hanesyddol, roedd Llanfair Caereinion yn gweithredu fel canolfan amaethyddol, gyda'i marchnad a gwerthiannau da byw yn darparu gwasanaethau hanfodol i ffermwyr a phentrefi lleol. Dros y degawdau, tyfodd ei swyddogaeth fel canolfan wasanaethau, a gefnogir gan ei lleoliad canolog a rhwydwaith cryf o sefydliadau cymunedol.

Heddiw, fel llawer o drefi gwledig, mae Llanfair Caereinion yn wynebu cyfres o heriau cysylltiedig â'i gilydd sy'n deillio o dueddiadau economaidd a chymdeithasol ehangach. Mae newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, megis y symud tuag at siopa ar-lein, wedi cyfrannu at lai o gynnig o ran siopau. Mae cau gwasanaethau traddodiadol y stryd fawr, gan gynnwys banciau, wedi lleihau'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael yng nghanol y dref, gan arwain at leihad mewn presenoldeb a bywiogrwydd yn ystod y dydd. Ar yr un pryd, mae pwysau ar gyllidebau sector cyhoeddus wedi dwysáu pryderon am gynaliadwyedd gwasanaethau hanfodol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Llanfair Caereinion yn cadw sail gref o wasanaethau hanfodol sy'n cynnal ei rôl fel canolfan wasanaethau lleol. Mae'r dref yn gartref i ganolfan feddygol boblogaidd, ysgol gyfrwng Cymraeg ar gyfer pob oed, canolfan hamdden, a llyfrgell – sy'n diwallu anghenion trigolion o bentrefi cyfagos. Mae ei chyfleusterau chwaraeon, lleoedd cymunedol, a sefydliadau gwirfoddol gweithgar hefyd yn atgyfnerthu bywyd cymunedol bywiog sy'n meithrin cydlyniant a gweithgarwch cymdeithasol.

Mae apêl y dref yn ymestyn y tu hwnt i'w rôl fel canolfan wasanaethau, gan ddenu ymwelwyr oherwydd ei threftadaeth gyfoethog ac asedau twristiaeth allweddol. Mae Rheilffordd y Trallwng a Llanfair Caereinion, atyniad treftadaeth cenedlaethol, yn denu dros 26,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Yn ogystal a hybu'r economi leol mae'r trên bach yn helpu rhoi Llanfair Caereinion ar y map fel cyrchfan i deuluoedd. Fodd bynnag, er bod y rheilffordd yn boblogaidd gan ymwelwyr, nid oes fawr o integreiddio â chanol y dref, sy'n golygu colli cyfle i ennill buddion economaidd ychwanegol.


Mae'r dirywiad mewn cynigion manwerthu a lletygarwch yng nghanol y dref wedi creu bwlch yn ei allu i ddarparu ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Gyda llai o fusnesau ar agor yn ystod y dydd a chyfleoedd cyfyngedig am hamdden a bwyta allan, mae canol y dref yn ei chael yn anodd i gynnal ei fywiogrwydd a chynnig rhesymau cryf i bobl dreulio amser yno. Mae ymateb i'r heriau hyn, gan adeiladu ar gryfderau presennol Llanfair Caereinion, yn rhan allweddol o genhadaeth y Cynllun Creu Lleoedd. Trwy ddathlu ei threftadaeth, gwella cysylltiadau, a chreu cyfleoedd am dwf, nod y Cynllun yw adfywio'r dref fel canolfan lewyrchus, wydn a chynhwysol i'r gymuned leol ac i ymwelwyr.

# GWNEUD CANOL Y DREF YN LLE GWYCH



Mae lleoedd hanesyddol fel Llanfair Caereinion wedi bod yn ganolbwynt i gymunedau ers canrifoedd, ac mae hyn yn cyfrannu at eu hunaniaeth unigol a hunaniaeth yr ardal ehangach a'i phoblogaeth. Mae lleoedd yn dylanwadu arnom ac rydym ninnau'n parhau i ddylanwadu arnyn nhw. Mae'r Cynllun hwn yn cynnig y cyfle i helpu dathlu a thyfu nodweddion gorau Llanfair Caereinion gan atgyfnerthu'r rhai nad ydynt cystal.

Mae angen i le gwych lwyddo mewn sawl cyfeiriad yr un pryd. Mae Siartr Creu Lleoedd Cymru yn disgrifio'r rhain fel chwe thema allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud lle gwych:



# CYNNWYS RHANDDEILIAID A'R GYMUNED



Rydym yn ymgynghori â'r cyhoedd ar y **Cynllun Creu Lleoedd Drafft** hwn ar ôl ymchwil lleol, cyfarfodydd â rhanddeiliaid ac ymgynghori â sawl sefydliad lleol gan gynnwys Cyngor Tref Llanfair Caereinion, Partneriaeth Llanfair, a'r Cynghorydd Sir Powys.

Gwahoddir y gymuned, busnesau a sefydliadau lleol i roi sylwadau ar y syniadau canlynol. Mae arnom eisiau deall eich blaenoriaethau a graddau'r gefnogaeth am newidiadau a gwelliannau cyn inni symud ymlaen ag unrhyw gynigion. Bydd y Cynllun terfynol yn gosod canllawiau ar gyfer arwain buddsoddi a denu cylld am y 5+ mlynedd nesaf..

# GWIRIAD IECHYD


dadansoddiad a'r syniadau mewn adrannau diweddarach o'r Cynllun Creu Lleoedd hwn. Mae'n grynodeb o Adroddiad Llinell Sylfaen Gwiriad Iechyd Llanfair Caereinion 2024, a gynhyrchwyd fel rhan o broses ddatblygu'r Cynlllun Creu Lleoedd  ac sydd ar gael ar gais.



## POBL A CHYMUNED

Mae tua 970 o bobl yn byw yn y dref ei hun, gyda thros 2,100 yn yr ardal o gwmpas. Mae'r boblogaeth yn cynnwys mwy o bobl ifanc na chyfartaledd Powys, yn rhannol oherwydd presenoldeb Ysgol Bro Caereinion, yr ysgol bob oed. Gall bron i draean y trigolion siarad Cymraeg, sy'n sylweddol uwch na chyfartaleddau sirol a chenedlaethol, gan gwneud y dref yn gymuned Gymraeg bwysig.

**Proffil oedran, Llanfair Caereinion (glas) a chyfartaledd Powys (bar du)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Mae'r dref elwa o gael grwpiau cymunedol gweithgar, gan gynnwys Cyfeillion Coed Deri a Phwyllgor Institiwt Llanfair, sy'n trefnu amrywiol weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. Er bod y grwpiau hyn yn cyfoethogi bywyd lleol, mae cynnal niferoedd gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn her.

## GWASANAETHAU A BUSNESAU

Mae canol y dref yn darparu gwasanaethau ymarferol dyddiol gan gynnwys dwy siop hwylustod, cigydd, siop nwyddau caled, a swyddfa bost o fewn y siop Spar. Mae gwasanaethau hanfodol yn cynnwys Practis Meddygol sy'n gwasanaethu dros 5,000 o gleifion, practis deintyddol, a brocer yswiriant. O ran bwyta allan a llety, mae tafarndai, gwesty bach a siopau cludfwyd.

**Mathau o fusnesau yn Llanfair Caereinion fel cyfran o'r holl unedau a feddiennir (ac eithrio eiddo gwag), o gymharu â chyfartaleddau Cymru a Phowys.**

| Math o fusnes | Llanfair Caereinion (%) | Cyfartaledd CLG Cymru (%) | Cyfartaledd Powys (%) |
|---|---|---|---|
| Cymhariaeth | 0 | 29.3 | 35.4 |
| Hwylustod | 21.4 | 4.3 | 0.1 |
| Hamdden | 21.4 | 25.6 | 25.0 |
| Amrywio | 0.0 | 9.0 | 2.5 |
| Gwasanaeth | 42.9 | 31.8 | 27.0 |

Er bod y dref wedi colli rhai gwasanaethau fel banciau a chaffis dros y ddegawd ddiwethaf, mae'n dal i ddiwallu anghenion lleol yn dda. Y brif her yw cynyddu gweithgarwch yn ystod oriau'r dydd a denu mwy o ymwelwyr i ganol y dref. Mae Ystad Ddiwydiannol Banwy, er yn fach, yn darparu cyflogaeth leol bwysig ac yn cynnwys cyflenwyr amaethyddol a phractis milfeddygol.

## AMGYLCHEDD A CHYMERIAD

Mae canol hanesyddol y dref wedi'i leoli o fewn Ardal Gadwraeth, gyda llawer o adeiladau deniadol o'r 19eg ganrif. Mae Afon Banwy yn llifo drwy'r dref ond mae i raddau wedi ei gwahanu oddi wrth fywyd bob dydd. Mae rhai ardaloedd, gan gynnwys rhannau o'r canol, yn wynebu risgiau llifogydd sy'n cyfyngu ar gyfleoedd datblygu.

Mae'r dref wedi ei lleoli oddi ar gefnffordd yr A458 sy'n rhedeg rhwng y Trallwng a Dolgellau. Mae strydoedd yng nghanol y dref sydd braidd yn gul a serth yn creu heriau i gerbydau mawr a cherddwyr. Mae gwelliannau diweddar yn cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan a Wi-Fi yng nghanol y dref.









## ASEDAU AC ATYNIADAU ALLWEDDOL

Rheilffordd y Trallwng a Llanfair Caereinion yw prif atyniad twristaidd y dref, gan ddod â 26,000 o ymwelwyr iddi'n flynyddol. Mae'r orsaf yn cynnwys caffi, siop anrhegion, amgueddfa reilffordd ac Amgueddfa Ceir Model Cloverlands. Bydd buddsoddiad o £400,000 yn gwella'r cyfleusterau hyn ymhellach yn fuan. Fodd bynnag, mae cysylltiadau gwael rhwng yr orsaf a chanol y dref yn golygu nad yw'r mwyafrif o ymwelwyr yn crwydro'r tu hwnt i'r rheilffordd.

Mae Cae'r Geifr a Choed Deri yn llecynnau gwyrdd gwerthfawr ar gyfer hamdden a bywyd gwyll, gyda buddsoddiad diweddar yn gwella eu llwybrau a'u nodweddion. Fodd bynnag, gallai pwyntiau mynediad o ganol y dref fod yn gliriach.



Mae'r ardal o gwmpas yn cynnwys sawl maes carafan, gyda lle ar gyfer tua 800 o fewn pum cilometr. Mae'r ymwelwyr hyn yn cefnogi busnesau lleol ond gellid eu hannog i ddefnyddio canol y dref yn fwy.

## SYMUD A MYNEDIAD

Er bod maint cryno'r dref yn gwneud cerdded yn bosibl, mae elltydd serth a rhai palmentydd sydd ar goll yn creu anawsterau o ran hygyrchedd. Mae angen gwella cysylltiadau cerddwyr ag atyniadau fel y Rheilffordd. Cyfyngedig yw gwasanaethau bws i drefi cyfagos, er y gallant wella yn y dyfodol. Mae lle i barcio yn broblem ac yn peri pryder allweddol i randdeiliaid lleol: oherwydd trefn hanesyddol y strydoedd, cyfyngedig yw lle i barcio ar y stryd ac mae'r lleoedd sydd ar gael yn gyfyngedig o ran amser, ac er bod y prif faes parcio cyhoeddus oddi ar Stryd y Dŵr am ddim ar hyn o bryd, nid yw mewn lleoliad cyfleus i ymwelwyr sy'n cyrraedd ac i bobl sy'n ceisio defnyddio gwasanaethau lleol neu gyfleusterau cymunedol fel yr Institiwt. Mae wedi ei arwyddo a'i drefnu'n wael ond mae'n darparu gwefru i gerbydau trydan.





## SAFLEOEDD ALLWEDDOL

**Iard Morgan**, safle hanner-hectar yng ngogledd canol y dref a gerllaw'r afon a chyfleusterau lleol fel y toiledau lleol ac Instítiwt Llanfair. Mae'n cynnig potensial sylweddol am ddatblygu er gwaethaf heriau o ran llifogydd.

Mae hen **Sgwâr y Farchnad**, bellach yr ardal sy'n cynnwys cyffordd y Stryd Lydan/ Stryd y Bont, Stryd y Mynydd a Banc y Person, yn ardal sy'n rhaid i fwy neu lai holl ddefnyddwyr canol y dref fynd naill ei drwyddi neu heibio iddi. Fel calon hanesyddol y dref gynt, mae'n dal i fod yn lleoliad y rhan fwyaf o weithgarwch masnachol o ddydd i ddydd ac mae'n cynnwys adeilad amlwg hen fanc ac eiddo gwag.

Bydd safle presennol **Practis Meddygol Llanfair**, sydd uwchben Iard Morgan yn dod ar gael i'w ailddefnyddio neu ei ddatblygu os bydd ail-leoli'r Practis i Ganolfan Feddygol newydd a phwrpasol ar ymyl y dref yn mynd ymlaen yn unol â'r cynllun yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## HUNANIAETH A HYRWYDDO

Er bod y dref yn adnabyddus am ei chymeriad hanesyddol a'i hysbryd cymunedol, nid oes brand unedig ganddi sy'n hyrwyddo ei hapêl yn effeithiol. Mae'r cylchlythyr dwyieithog Cronicl Llanfair a chyfryngau cymdeithasol yn helpu cyfathrebu lleol, ond gallai hyrwyddo sydd wedi ei gydlynu'n well ddenu mwy o ymwelwyr.

Mae digwyddiadau traddodiadol fel y Carnifal a'r Sioe wedi wynebu heriau diweddar gyda chostau'n cynyddu a phrinder gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae amrywiol glybiau chwaraeon a gweithgareddau cymunedol y dref yn cyfrannu at ei chymeriad nodedig a gallai hyn helpu i greu hunaniaeth gryfach sy'n apelio at drigolion ac ymwelwyr.



# HERIAU A CHYFLEOEDD ALLWEDDOL

## Cryfderau

**Poblogaeth:** Mae gan y dref gyfran uwch o blant oed ysgol a phobl ifanc o gymharu â chyfartaledd Powys

**Gwasanaethau Hanfodol:** Mae'r dref yn dal gafael ar wasanaethau allweddol, gan gynnwys Practis Meddygol, deintydd, canolfan hamdden, ac ysgol, sy'n denu presenoldeb dyddiol o'r cymunedau gwledig o'i chwmpas.

**Asedau Cymunedol:** Mae amrywiaeth o leoliadau cymunedol dan do, megis Instiτiwt Llanfair a'r llyfrgell, yn cefnogi gweithgarwch a digwyddiadau lleol bywiog, ac mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn ei gwneud yn ganolbwynt ar gyfer chwaraeon.

**Tref Gryno: Mae maint** a chyfleusterau canolog y dref yn ei gwneud yn hawdd i drigolion ac ymwelwyr symud o gwmpas.

**Cymeriad Hanesyddol:** Mae'r Ardal Gadwraeth a'r bensaernïaeth o'r 19eg ganrif sydd wedi ei ddiogelu'n dda yn cynnig treflun ddeniadol a thrawiadol.

**Digidol a Seilwaith:** Mae buddsoddiadau diweddar, gan gynnwys Wi-Fi a gwefru cerbydau trydan, yn gwella hygyrchedd a moderneiddio cynnig y dref.

**Apêl Twristaidd:** Mae Rheilffordd y Trallwng a Llanfair Caereinion yn atyniad treftadaeth o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n denu dros 26,000 o ymwelwyr yn flynyddol a chefnogi'r economi leol..

**Meysydd Carafanau:** amcangyfrifir bod lle i tua 800 o garfannau o fewn radiws o bum cilometr, ac yn aml, mae'r rhai sy'n aros ynddynt yn cefnogi busnesau lleol, gan gynnwys tafarndai, gwestyau, siopau cludfwyd a siopau hwylus y dref.

## Gwendidau

**Cynnig Manwerthu sy'n Dirywio:** Mae colli banciau, caffi, a busnesau eraill wedi lleihau bywiogrwydd ac amrywiaeth manwerthu'r dref.

**Lletygarwch Cyfyngedig yn ystod y Dydd:** Prinder dewisiadau lletygarwch yn ystod y dydd yn cadw ymwelwyr rhag treulio amser yn y canol.

**Cysylltiadau Gwael:** Mae'r llwybrau ar gyfer teithwyr ar droed neu ar olwynion rhwng asedau allweddol, megis y Rheilffordd a chanol y dref, yn anuniongyrchol ac wedi eu cynnal a'u cadw'n wael, sy'n rhwystro integreiddiad ymwelwyr.


**Risg Llifogydd:** Mae rhannau o'r dref, gan gynnwys Iard Morgan, yn wynebu heriau sylweddol o ran llifogydd, gan gyfyngu ar botensial ailddatblygu.

**Parcio:** Dewisiadau gwael ar gyfer parcio ar ac oddi ar y stryd yn gwneud bywyd yn anodd i lawer o drigolion, yn cyfyngu ar y defnydd o asedau cymunedol fel yr Instiτiwt, ac yn ei gwneud yn fwy anodd i ymwelwyr grwydro ardal gyfan canol y dref.

**Tagfeydd Traffig:** Mae strydoedd culion, ceir wedi parcio a cherbydau amaethyddol neu ddiwydiannol mawr yn credu problemau llif traffig dros dro a llygredd sŵn ac aer yng nghanol y dref.

**Potensial nas Gwireddir:** Nid yw canol y dref yn teimlo'n gysylltiedig ag ased naturiol amlwg, sef Afon Banwy, ac mae un o'r ychydig safleoedd datblygu posibl yng nghanol y dref, Iard Morgan, wedi aros yn segur ers llawer blwyddyn.

# AMCANION



Mae Llanfair Caereinion yn cynnig cymysgedd cyfoethog o asedau, gan gynnwys cyfleusterau hamdden, naws hanesyddol, tafarndai, lleoliadau cymunedol, a choetiroedd a llwybrau cyfagos, gan wneud y dref yn ganolfan wledig fywiog.

Er bod y Rheilffordd yn chwarae rhan bwysig yn economi'r dref a bod potensial i'r meysydd carafanau lleol gynhyrchu ymweliadau gan dwristiaid / trigolion dros dro yr ardal, dylai'r pwyslais fod ar greu canol tref a ddefnyddir yn ddyddiol gan ei drigolion a thrigolion y cymunedau gwledig o'i gwmpas, gan y bydd hyn yn gwella'n naturiol ei apêl i ymwelwyr a helpu ei gynhaliadwyedd hirdymor.



## 1. Bywiogi canol y dref, trwy gynyddu cyfleoedd i'r gymuned leol ei ddefnyddio, gan ddiogelu ei rôl fel canolbwynt gwledig:

Cefnogi cyfleusterau cymunedol hanfodol, busnesau iechyd a harddwch, tafarndai a darparwyr nwyddau dyddiol hanfodol.

Annog defnydd o'r canol ar gyfer hamdden trwy gynllunio llecynnau cyhoeddus sy'n gwahodd pobl i gerdded o gwmpas a threulio amser.

Hyrwyddo chwaraeon a hamdden trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau o fewn cyrraedd hawdd i'r canol a'u gwneud mor hygyrch â phosibl ac o'r safon uchaf posibl.

Cefnogi mathau preswyl o ddefnydd o fewn y canol sy'n fforddiadwy ac yn aml-genhedlaeth.

## 2. Cysylltu canol y dref yn well â'r ardal sy'n ei amgylchynu:

Sicrhau bod y canol yn darparu lleoedd parcio hwylus a hawdd eu canfod, yn enwedig i'r rheini â llai o allu i symud.

Cryfhau'r cysylltiadau cerdded a beicio rhwng y Rheilffordd, canol y dref a'r ardaloedd o gwmpas.

Gwella cysylltiadau'r parth cyhoeddus i integreiddio'r afon a'r coetir i'r profiad o ganol y dref.

Sicrhau cysylltiadau da o ran teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus rhwng y canol a lleoliad arfaethedig y Ganolfan Feddygol newydd.

## 3. Diogelu a gwella asedau ac atyniadau presennol y gymuned:


Gwella mynediad, hygyrchedd ac apêl adeiladau a llecynnau cymunedol allweddol fel yr Institiwt a hen Sgwâr y Farchnad.

Annog a dylanwadu ar ddatblygiad Iard Morgan fel safle defnydd-cymysg i ddarparu lle parcio cyhoeddus, hamdden, a chysylltedd.

Cryfhau amlygrwydd, arwyddion a llwybrau sy'n cysylltu'r canol â Chae'r Geifr a Choed Deri.

Buddsoddi mewn gwelliannau i ffryntiadau siopau a gwelliannau i eiddo busnes fel bod busnesau yn diogelu a gwella eu defnydd a'u golwg.

# PROSIECTAU ALLWEDDOL



PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 1: IARD MORGAN:

## PARC AR LAN YR AFON, MAES PARCIO A DATBLYGIADAU



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae Iard Morgan yn safle hanner-hectar gwag ar waelod Stryd y Bont, ar lan Afon Banwy. Bu gynt yn depo siop nwyddau haearn a masnachwyr adeiladu, ac mae wedi bod yn segur ers 2003. Er bod gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer tai, mae risgiau llifogydd a phroblemau sefydlogrwydd torlan yr afon wedi rhwystro datblygiad.

### POTENSIAL

Mae lleoliad y safle rhwng canol y dref, yr afon, a'r Rheilffordd yn ei gwneud yn ddelfrydol ar gyfer creu cysylltiadau a llecynnau newydd a allai fod o fudd i drigolion ac ymwelwyr. Gallai datblygu'r safle fynd i'r afael â phrinder lleoedd parcio yn y dref a darparu lleoedd cyhoeddus sydd eu hangen yn fawr ar gyfer gweithgareddau cymunedol.

### GWELEDIGAETH

Nod y prosiect yw trawsnewid Iard Morgan yn gyrchfan fywiog sy'n cysylltu canol y dref yn well â'i ased naturiol allweddol, sef Afon Banwy, a'i ased twristiaeth gerllaw, sef y Rheilffordd. Byddai'r datblygiad yn creu llecyn cyhoeddus aml-bwrpas yn cynnwys lle parcio, lle chwarae (wedi ei ail-leoli) i blant, a chyfleusterau picnic. Byddai'r lle yn cael ei gynllunio i gynnwys digwyddiadau cymunedol a marchnadoedd, gyda chyflenwadau trydan yn galluogi defnydd hyblyg drwy gydol y flwyddyn. Gallai''r datblygiad gynnwys fflatiau preswyl a/neu unedau diwydiannol ysgafn neu grefftau gyda'u lleoedd parcio eu hunain.

## 1. IARD MORGAN: PARC AR LAN YR AFON, MAES PARCIO A DATBLYGIADAU

# CAMAU A GYNIGIR

**Cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb, gan gynnwys:**

- Prisiad annibynnol o'r safle
- Trafod gyda'r tirfeddiannwr
- Trafod gyda phartneriaid datblygu posibl (archwilio cyfuno/cydgysylltu â datblygiad posibl safle'r Practis Meddygol presennol)
- Datblygu cynlluniau cysniadau wedi eu costio, a'u datblygu trwy ymgynghori cyhoeddus
- Canfod ffynonellau posibl o gyllid









PROSIECTAU ALLWEDDOL

# ARDAL Y GANOLFAN FEDDYGOL A'R CYRTIAU TENIS:

## TAI NEWYDD SY'N CRYFHAU CANOL Y DREF



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae disgwyl i Bractis Meddygol Caereinion ail-leoli yn yr ychydig flynyddoedd nesaf o'i adeilad presennol ar Fanc y Person i gyfleuster newydd pwrpasol ar ymyl y dref. Mae safle adeilad y Practis presennol gerllaw'r cyrtiau tenis a lle chwarae sy'n eiddo i Gyngor y Dref, a darn bach o dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys ac a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer parcio, gan gynnig cyfle am ailddatblygu cynhwysfawr sy'n ymateb i anghenion y dref.

### POTENSIAL

Gallai'r ardal hon ddarparu tai newydd y mae angen mawr amdanynt gerllaw canol y dref. Mae cynnwys y cyrtiau tenis a'r lle chwarae sy'n eiddo i'r Cyngor Tref yn opsiwn a fyddai'n gwneud y darpar safle datblygu yn fwy hyfyw yn ariannol ac felly'n fwy deniadol i fuddsoddwyr/datblygwyr. Yn amodol ar astudiaethau dichonoldeb pellach, os yw'r opsiwn hwn yn hyfyw byddai'n cynhyrchu cyllid y gall y Cyngor Tref ei ddefnyddio i sbarduno datblygiadau mewn lleoedd eraill yn y dref. Gallai'r ailddatblygu hefyd helpu i liniaru pwysau am leoedd parcio i drigolion canol y dref a gwella mynediad cerddwyr i ganol y dref i'r rheini sy'n dod o ogledd-ddwyrain y dref a'r Rheilffordd.

### GWELEDIGAETH

Byddai'r prosiect yn creu ardal breswyl newydd sy'n dod â mwy o bobl yn agosach at siopau a gwasanaethau lleol. Gallai gynnwys cymysgedd o fathau o dai addas ar gyfer gwahanol genedlaethau a gallai edrych ar greu mynedfa i gerbydau ar hyd Lôn Eithinog, gan leihau pwysau ar Fanc y Person.

## 2: ARDAL Y GANOLFAN FEDDYGOL A'R CYRTIAU TENIS: TAI NEWYDD SY'N CRYFHAU CANOL Y DREF

# CAMAU A GYNIGIR

**Cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb, gan gynnwys:**

- Trafod rhwng yr holl dirfeddianwyr i archwilio cyfleoedd i ddatblygu ar y cyd
- Trafod gyda phartneriaid datblygu posibl (archwilio cyfuno/cydgysylltu â datblygiad posibl Iard Morgan)
- Datblygu dyluniadau cysyniadau wedi eu costio, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ail-leoli cyfleusterau hamdden
- Canfod ffynonellau posibl o gyllid.



PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 3. GOGLEDD STRYD Y BONT:

## MAN CYRRAEDD TRAWIADOL



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Gogledd Stryd y Bont yw'r argraff gyntaf a gaiff llawer o ymwelwyr o ganol y dref, ond mae'n brin o apêl weledol ac arwyddion clir ar hyn o bryd. Mae'r ardal o gwmpas yr Institiwt, y toiledau cyhoeddus a'r llwybr drwy'r fynwent i'r Stryd Fawr ac ymlaen i Gae'r Geifr yn teimlo fel pe bai'n ddigyswllt ac yn cael ei thanddefnyddio.

### POTENSIAL

Gallai gwella'r porth hwn greu argraff gyntaf well ac annog mwy o bobl i grwydro canol y dref. Byddai gwell cysylltiadau yn ei gwneud yn haws i ymwelwyr ganfod cyfleusterau ac atyniadau allweddol. Pe câi Iard Morgan ei ddatblygu, byddai pwysigrwydd y rhan hon o Stryd y Bont yn cynyddu ymhellach.

### GWELEDIGAETH

Byddai'r prosiect yn trawsnewid Stryd y Bont yn fan cyrraedd deniadol sy'n croesawu ymwelwyr a'u tywys yn glir i gyrchfannau canol y dref. Byddai gwaith celf newydd, planhigion ac arwyddion yn creu pwynt cyrraedd trawiadol sy'n adlewyrchu cymeriad y dref.

## 3: **GOGLEDD STRYD Y BONT:** MAN CYRRAEDD TRAWIADOL

# CAMAU A GYNIGIR

- Dylunio a gosod arwyddion croeso newydd
- Gwella cysylltiadau a chroesfannau i gerddwyr
- Gosod arwyddion cyfeirio clir i gyrchfannau allweddol
- Ystyried cyfleoedd am gelf cyhoeddus sy'n gweddu â chymeriad y dref
- Gwella goleuadau a chelfi stryd



Llwybr y Fynwent







Enghreifftiau o gelf cyhoeddus ac arwyddion baner

PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 4: CYFFORDD FFORDD NEWYDD/STRYD Y BONT:

## PORTH I'R DREF



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae cyffordd Ffordd Newydd (A458) a Stryd y Bont i'r gogledd o'r aafon yn gwasanaethu fel y brif fynedfa i gerbydau i ganol y dref, ond mae'n ymddangos yn anniben ac anghroesawgar. Mae'r arwyddion presennol yn methu â rhoi gwybodaeth ddigonol i ymwelwyr sy'n mynd heibio am yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig a'u denu i droi i mewn ac ymweld.

### POTENSIAL

Gallai porth mwy deniadol annog mwy o bobl sy'n teithio ar yr A458 i alw i mewn ac ymweld â chanol y dref, gan ddod â budd i fusnesau ac atyniadau lleol a chynyddu gwytnwch canol y dref.

### GWELEDIGAETH

Byddai'r prosiect yn creu mynedfa gliriach, fwy apelgar i ganol y dref trwy dacluso, arwyddion newydd a gwelliannau gweledol fel paentio rheiliau'r bont. Byddai hyn yn helpu i ddal sylw traffig sy'n mynd heibio ac arwain ymwelwyr i leoedd parcio ac atyniadau'r dref..

## 4: CYFFORDD FFORDD NEWYDD/STRYD Y BONT: PORTH I'R DREF

## CAMAU A GYNIGIR

- Cael gwared ar arwyddion a chelfi stryd diangen
- Dylunio a gosod arwyddion croeso newydd
- Gwella golwg y bont
- Creu cyfarwyddiadau cliriach at ddewisiadau parcio cyhoeddus
- Gwella pwyntiau croesi i gerddwyr.








PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 5: SGWÂR Y FARCHNAD A'R STRYD FAWR:

## ANNOG POBL I DREULIO AMSER A CHEFNOGI BUSNESAU LLEOL



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae ardal hanesyddol Sgwâr y Farchnad o gwmpas yr Eglwys Bresbyteraidd, siop sglodion a thafarn y Llew Coch yn ffurfio calon fasnachol canol y dref ond mae o dan oruchafiaeth y ffyrdd sy'n mynd drwyddi, ac mae'n brin o hunaniaeth glir a bywiogrwydd, yn enwedig oherwydd hen adeilad amlwg a gwag y banc.

Mae'r Stryd Fawr yn rhan o ganol y dref sy'n agosaf i'r prif faes parcio cyhoeddus ac mae'n cynnwys rhai adeiladau hanesyddol deniadol gan gynnwys Gwesty Rhestredig Gradd II y Goat a'r fynedfa i Gae'r Geifr sydd agosaf i ganol y dref. Mae'n teimlo fodd bynnag ei bod wedi'i datgysylltu oddi wrth weddill canol y dref, ac mae cyflwr rhai o'r adeiladau yn ei gwneud yn llai deniadol.

### POTENSIAL

Gallai gwella ardal hen Sgwâr y Farchnad greu canolfan gryfach i weithgarwch masnachol a chymunedol sy'n annog trigolion ac ymwelwyr i dreulio mwy o amser yng nghanol y dref, gan gefnogi busnesau presennol a galluogi meddiannu hen adeilad y banc.

Gallai gwella'r parth cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr, o bosibl trwy greu rhywfaint o leoedd parcio oddi ar y stryd, fynd i'r afael â'r heriau gyda palmentydd cul a hygyrchedd a gwella cysylltiadau â Chae'r Geifr a Choed Deri.

### GWELEDIGAETH

Byddai'r prosiect yn gwneud gwelliannau ar raddfa fach i'r parth cyhoeddus yn Sgwâr y Farchnad, gan ei wneud yn lle mwy deniadol sy'n canolbwyntio ar gerddwyr gyda lleoedd awyr agored i'w defnyddio gan fusnesau lletygarwch lleol. Byddai gwell palmentydd a phwyntiau croesi yn ei gwneud yn haws i bobl gerdded rhwng y maes parcio a chanol y dref, yn enwedig y rheini ag anawsterau symud, gan gadw rhywfaint o le parcio ar y stryd i gefnogi busnesau lleol a mynediad i gerbydau amaethyddol mawr a bysiau. Byddai cymorth wedi'i dargedu yn cael ei ddarparu i wella hen adeilad y banc ac annog ei ailddefnyddio.

## 5: SGWÂR Y FARCHNAD A'R STRYD FAWR: ANNOG POBL I DREULIO AMSER A CHEFNOGI BUSNESAU LLEOL

# CAMAU A GYNIGIR

**Market Square**

- Develop designs for public realm improvements
- Provide targeted support to enable the reuse of the former bank building

**Sgwâr y Farchnad**

- Datblygu dyluniadau ar gyfer gwelliannau i'r parth cyhoeddus
- Darparu cymorth wedi ei dargedu i alluogi ailddefnyddio hen adeilad y banc
- Y Stryd Fawr
- Datblygu dyluniadau ar gyfer gwelliannau i'r parth cyhoeddus
- Archwilio dichonadwyedd creu lle parcio oddi ar y stryd o dir dros ben o fewn y fynwent, gan ystyried heriau allweddol gan gynnwys statws adeilad rhestredig, gwarchod coed o fewn Ardal Gadwraeth, a seilwaith telathrebu gerllaw.






Enghreifftiau o leoedd cyfeillgar i gerddwyr

PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 6: MYNEDFA CAE'R GEIFR:

## DAL SYLW



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae'r fynedfa i Gae'r Geifr o'r Stryd Fawr wedi ei guddio ac yn anghroesawgar, er ei fod yn llecyn hamdden pwysig ac ar y ffordd i Goed Deri.

### POTENSIAL

Gallai gwell mynediad annog mwy o bobl i ddefnyddio'r llecynnau gwyrdd hyn a chreu cysylltiadau cryfach rhwng canol y dref a'i asedau naturiol.

### GWELEDIGAETH

Byddai'r prosiect yn creu mynedfa glir, ddeniadol, sy'n denu pobl tuag at y llecynnau gwyrdd hyn. Gallai arwyddion newydd a thirlunio helpu i integreiddio Cae'r Geifr yn agosach â chanol y dref.

## 6: MYNEDFA CAE'R GEIFR: DAL SYLW

## CAMAU A GYNIGIR

- Dylunio a gosod nodweddion newydd i'r fynedfa
- Gwella arwyneb a hygyrchedd llwybrau
- Ychwanegu arwyddion cyfeirio
- Gwella tirlunio o amgylch y fynedfa
- Ystyried gwelliannau i oleuadau er mwyn diogelwch.




Enghreifftiau o nodweddion mynedfeydd

PROSIECTAU ALLWEDDOL

# 7: CAE'R MYNYDD:

## GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A CHEFNOGI SEILWAITH



### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae Cae'r Mynydd yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon pwysig ond mae arno angen gwelliannau i'w seilwaith i ddiwallu anghenion y gymuned a chlybiau lleol.

### POTENSIAL

Gallai gwella'r cyfleusterau hyn gryfhau rôl y dref fel canolfan i chwaraeon a darparu gwell amwynderau i drigolion o bob oed, ond yn enwedig i bobl ifanc.

### GWELEDIGAETH


Gallai'r prosiect greu gwell cyfleusterau chwaraeon megis ardal chwaraeon aml-ddefnydd pob-tywydd (MUGA) (gan ymgorffori cyrtiau tenis a ail-leolwyd, pe baent yn cael eu cymysg mewn datblygiad yn ymwneud ag adeilad y Practis Meddygol presennol) a/neu beicio pwmp neu drac BMX. Byddai seilwaith newydd a rennir yn cynnwys gwell lle i barcio a'r potensial am adeilad fel tŷ clwb.

## 7: **CAE'R MYNYDD:** GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A CHEFNOGI SEILWAITH

## CAMAU A GYNIGIR

- Cyd-drafod ymhellach â chlybiau chwaraeon a'u defnyddwyr
- Dylunio cyfleusterau chwaraeon newydd a seilwaith atodol
- Cynllunio gwelliannau i leoedd parcio
- Archwilio cyfleoedd am gyllid
- Ystyried cyflwyno'r gwelliannau fesul tipyn
- Datblygu trefniadau rheoli cynaliadwy.





# PROSIECTAU AR GYFER Y DREF GYFAN

Yn ogystal â'r prosiectau allweddol a ddisgrifir uchod, gallai amryw o ymyraethau llai ar hyd a lled canol y dref helpu i gyflawni amcanion y Cynllun Creu Lleoedd.

## DIOGELU AC CHEFNOGI LLEOLIADAU CYMUNEDOL

Mae lleoliadau cymunedol Llanfair Caereinion yn chwarae rhan hanfodol mewn bywyd lleol ond yn wynebu amryfal heriau. Gallai'r prosiect hwn gefnogi eu cynaliadwyedd hirdymor trwy fuddsoddiadau wedi eu targedu mewn adeiladau, gwell trefniadau mynediad, a chymorth at leihau costau rhedeg trwy wella effeithlonrwydd ynni. Byddai gwelliannau yn helpu lleoliadau i groesawu mwy o ddefnyddwyr a chynnal amrywiaeth helaethach o weithgareddau. Gallai'r prosiect gynnwys helpu lleoliadau i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a hyrwyddo'u cyfleusterau i ddarpar ddefnyddwyr.

## GRANTIAU WEDI EU TARGEDU AR GYFER GWELLA EIDDO

Byddai rhaglen grantiau yn helpu perchnogion i wella golwg a chyflwr adeiladau pwysig canol y dref. Gallai cyllid gefnogi atgyweiriadau, gwelliannau i nodweddion traddodiadol, a gweithio i ddod â safleoedd gwag yn ôl i ddefnydd. Byddai'r cynllun yn cynnwys canllawiau i sicrhau bod newidiadau yn gwella cymeriad hanesyddol y dref. Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i adeiladau mewn lleoliadau amlwg sy'n cyfrannu at argraff pobl o ganol y dref.

## CYSYLLTIADAU AR DROED AC AR OLWYNION

Gallai'r prosiect hwn ei gwneud yn haws i bobl ganfod eu ffordd o gwmpas Llanfair Caereinion, gyda phwyslais penodol ar wella'r cysylltiad rhwng y Rheilffordd a chanol y dref. Ar hyn o bryd mae'r llwybr pwysig hwn yn anodd ei ddilyn mewn lleoedd a braidd yn anneniadol, gan gadw ymwelwyr trên draw rhag crwydro canol y dref. Byddai arwyddion newydd yn arwain pobl yn glir rhwng cyrchfannau allweddol, gan ddangos amserau cerdded, ac amlygu pwyntiau o ddiddordeb ar hyd y ffordd. Byddai'r prosiect yn creu system o arwyddion cydlynol sy'n helpu ymwelwyr a thrigolion i ddeall yn well sut mae gwahanol rannau o'r dref yn cysylltu â'i gilydd a darganfod ei amrywiol atyniadau a chyfleusterau.

## GWELLA TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS

Byddai gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol ac yn haws ei ddefnyddio yn helpu lleihau dibyniaeth ar geir a phroblemau parcio, ac yn cefnogi'r rheini na all yrru neu y byddai'n well ganddynt beidio. Byddai'r prosiect hwn yn gwella cyfleusterau i deithwyr bws drwy'r dref i gyd, gan wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch a chysurus ym mhob tywydd. Byddai gwell gwybodaeth am wasanaethau yn helpu pobl i gynllunio eu teithiau yn haws.

# ADBORTH A'R CAMAU NESAF

## Gellir cyflwyno sylwadau ar y Cynllun drafft ar-lein wrth ddefnyddio'r ffurflen sylwadau neu fap rhyngweithiol i bostio syniadau:

www.powystowninvestmentplans.info/llanfaircaereinion/

Bydd digwyddiad galw heibio yn cael ei gynnal yng nghanol y dref a fydd yn rhoi cyfle i gyfarfod y tîm a thrafod y Cynllun. Bydd manylion yn cael eu hysbysebu'n lleol.

Yn dilyn yr ymgynghori ar y Cynllun drafft, bydd yr holl sylwadau a gaiff eu derbyn yn cael eu hadolygu a'u trafod gyda'r rhanddeiliaid lleol cyn cytuno ar Gynllun terfynol. Bydd y Cynllun yn cynnwys cynllun gweithredu yn disgrifio sut gall cynigion sydd â chefnogaeth y gymuned ehangach eu symud ymlaen, eu hariannu ac o fewn pa raddfeydd amser.

Cysylltwch ag Owen Davies Consulting
43A&B Frogmore Street, Y Fenni, NP7 5AN.

Owen Davies - owen@owendaviesconsulting.co.uk ac
Adam Greenwood – adam@owendaviesconsulting.co.uk

Owen Davies Consulting Ltd yw perchennog a thrwyddedai'r holl hawliau eiddo deallusol gyda'r astudiaeth a'r deunyddiau a gyhoeddir gyda hi. Diogelir y gweithiau hyn â chyfreithiau hawlfraint a chytundebau ledled y byd. Cedwir pob hawl o'r fath ac ni ddylid eu hatgynhyrchu, dyblygu, copïo, gwerthu, ailwerthu, na'u defnyddio ar gyfer unrhyw ddibenion, cynhyrchion na gwasanaethau masnachol.